# CYNGOR GWYNEDD

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU 2020/2021
## MEMBERS' SCHEDULE OF REMUNERATION 2020/2021

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru sy'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

This Scheme is made under the Local Government (Wales) Measure 2011 with regard to Independent Remuneration Panel for Wales (IRPW) Regulations, which apply to payments, made to members and co-opted members of local authorities.

**1. Cyflog Sylfaenol / Basic Salary**

1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod

A Basic Salary shall be paid to each elected Member of the Authority.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

In accordance with the Regulations, the rate of the Basic Salary shall be reviewed annually as determined by the Independent Remuneration Panel for Wales.

1.3 Lle mae cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef / hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

Where the term of office of a Member begins or ends other than at the beginning or end of a year, their entitlement to the Basic Salary will be pro-rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

No more than one Basic Salary is payable to a Member of the Authority.

**2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig / Senior Salaries & Civic Salaries**

2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.

Members occupying specific posts shall be paid a Senior Salary as set out in **Schedule 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau'r Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

In accordance with the Regulations, the rates of Senior Salaries and Civic Salaries shall be reviewed annually as determined by the Annual or Supplementary Report of the Independent Remuneration Panel for Wales.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod

Only one Senior Salary or Civic Salary is payable to a Member of the Authority.

2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig.

A Member of the Authority cannot be paid a Senior Salary and a Civic Salary.

2.5 Mae pob Uwch Gyflog a Chyflog Ddinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.

All Senior and Civic Salaries are paid inclusive of Basic Salary.

2.6 **Ni chaiff** Uwch Gyflog ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd Uwch Gyflog dros dro sy’n cyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.

A Senior Salary **may not** be paid to more than the number of members specified by the Independent Remuneration Panel for Wales in its Annual Report and cannot exceed fifty percent of the total membership of the authority, except to include a temporary Senior Salary office holder providing temporary cover for the family absence of the appointed office holder.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy’n derbyn Uwch Gyflog gael cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.

A Member of the Authority in receipt of a Senior Salary **cannot** receive a salary from any National Park Authority (NPA) or Fire and Rescue Authority (FRA) for which they have been nominated.

2.8 Lle mae tymor Aelod sy’n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Ddinesig yn dechrau neu'n gorffen ar adeg heblaw am ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog ar sail pro-rata.

Where the term of Senior Salary or Civic Salary of a Member begins or ends other than at the beginning or end of a year, their entitlement to the Salary will be pro-rata.

## 3. Penderfyniad i Ildio Hawl am Lwfans / Election to Forgo Entitlement to Allowance

3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis ildio unrhyw ran o’i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

A Member may, by notice in writing delivered to the Proper Officer of the authority, personally elect to forgo any part of their entitlement to any salary, allowance or fee payable under this Scheme from the date set out in the notice.

## 4. Atal Aelod Dros Dro / Suspension of a Member

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu’n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, bydd rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).

Where a Member of the Authority is suspended or partially suspended from their responsibilities or duties as a Member of the Authority in accordance with Part III of the Local Government Act 2000 (Conduct of Members), or regulations made under the Act, the

part of the Basic Salary payable to them in respect of that period for which they are suspended will be withheld by the Authority (Section 155 (1) of the Measure).

4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal dros dro, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol y cyfnod y caiff yr Aelod ei atal (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

Where a Member in receipt of a Senior Salary is suspended or partially suspended from being a Member of the Authority in accordance with Part III of the Local Government Act 2000 (Conduct of Members), or regulations made under the Act, the Authority must not make payments of the Member's Senior Salary for the duration of the suspension (Section 155 (1) of the Measure). If the partial suspension relates only to the specific responsibility element of the payment, the Member may retain the Basic Salary.

**5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd / Repayment of salaries, allowances or fees**

5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:

(a) wedi'i hatal / hatal neu ei atal / hatal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig
(c) mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei had-dalu.

Where payment of any salary, allowance or fee has been made to a Member of the Authority or Co-opted Member in respect of any period during which the Member concerned:

(a) is suspended or partially suspended from that Member's/Co-opted Member's duties or responsibilities in accordance with Part 3 of the 2000 Act or regulations made under that Act;
(b) ceases to be a Member of the Authority or Co-opted Member; or
(c) is in any other way not entitled to receive a salary, allowance or fee in respect of that period,

the Authority will require that such part of the allowance as relates to any such period be repaid.

**6. Taliadau / Payments**

6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud gan Adran Cyflogau, Cyngor Gwynedd trwy gredyd banc uniongyrchol mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod ar yr 22ain o'r mis.

Payments of all allowances will be made by the Gwynedd Council Payroll Department, by direct bank credit in instalments of one-twelfth of the Member's annual entitlement on the 22nd of the month.

6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

Where payment has resulted in a Member receiving more than their entitlement to salaries, allowances or fees the Authority will require that such part that is overpayment be repaid.

6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.

All payments are subject to the appropriate tax and National Insurance deductions.

## 7. Ad-dalu Costau Gofal / Reimbursement of Costs of Care

7.1 Bydd costau gofal yn cael eu had-dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion dibynnol, neu ofynion gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn ysgwyddo costau yn sgil darparu'r cyfryw ofal wrth ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

Reimbursement of costs of care shall be paid to a Member or Co-opted Member, who has caring responsibility for dependent children or adults, or a personal care requirement, provided the Member incurs expenses in the provision of such care whilst undertaking 'approved' council duties.

7.2 Mae ad-dalu costau gofal yn gymwys yn achos plant sy'n 15 oed neu'n iau a phersonau eraill y gall Aelod neu Aelod Cyfetholedig ddangos bod arnynt angen gofal. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd gall yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod ddangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

Reimbursement of costs of care applies in respect of children who are aged 15 or under and other persons for whom the Member or Co-opted Member can show that care is required. If a Member or Co-opted Member has more than one dependent, the Member may claim more than one allowance, provided the Member can demonstrate a need to make separate arrangements for care.

7.3 Gall Aelodau cymwys hawlio ad-daliad costau gofal ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb hyd at uchafswm nad yw'n rhagori ar hwnnw a bennwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylid cyflwyno pob hawliad am ad-dalu costau gofal yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd gan nodi amseroedd, dyddiadau a'r rhesymau dros hawlio. Rhaid darparu derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

Eligible Members may claim reimbursement of costs of care for actual and receipted costs up to a maximum amount not exceeding that determined by the Independent Remuneration Panel for Wales as set out in **Schedule 1**. All claims for reimbursement of costs of care should be made in writing to Democratic Services detailing times, dates and reasons for claim. Receipts are required for both informal and formal care arrangements.

## 8. Absenoldeb Teuluol / Family Absence

8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir y mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

Members are entitled under the provisions of the Family Absence for Members of Local Authorities (Wales) Regulations 2013 to a period of family absence, during which if they satisfy the prescribed conditions they are entitled to be absent from authority meetings.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.

When taking family absence Members are entitled to retain a basic salary irrespective of their attendance record immediately preceding the commencement of the family absence.

8.3 Os bydd deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol bydd yn gallu parhau i dderbyn ei uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

Should a senior salary holder be eligible for family absence they will be able to continue to receive their senior salary for the duration of the absence.

8.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol penodi eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol deiliad uwch gyflog bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.

If the authority agrees that it is necessary to make a substitute appointment to cover the family absence of a senior salary holder the Member substituting will be eligible if the authority so decides to be paid a senior salary.

8.5 Os bydd y taliad i'r eilydd a benodir yn achosi i'r awdurdod ragori ar yr uchafswm o uwch gyflogau a bennwyd ar ei gyfer, bydd caniatâd yn cael ei roi i ychwanegu at yr uchafswm hwnnw ar gyfer y cyfnod y penodir yr eilydd.

If the paid substitution results in the authority exceeding its maximum number of senior salaries, an addition to the maximum will be allowed for the duration of the substitution.

## 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig / Co-optees' payments

9.1 Telir ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) i Aelodau Cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.

A Co-optees' daily fee (with a provision for half day payments) shall be paid to Co-optees, provided they are statutory Co-optees with voting rights.

9.2 Bydd taliadau Aelodau Cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm sy'n cyfateb i **10** diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gall unigolyn gael ei gyfethol iddo.

Co-optees' payments will be capped at a maximum of the equivalent of **10** full days a year for each committee to which an individual may be co-opted.

9.3 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

Payments will take into consideration travelling time to and from the place of the meeting, reasonable time for pre meeting preparation and length of meeting (up to the maximum of the daily rate).

9.4 Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu'r amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn.

The Head of Democratic Services is designated as the "appropriate officer" and will determine preparation time, travelling time and length of meeting, the fee will be paid on the basis of this determination.

9.5 Gall Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei thalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

The Head of Democratic Services can determine in advance whether a meeting is programmed for a full day and the fee will be paid based on this determination even if the meeting finishes before four hours has elapsed.

9.6 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel un hyd at 4 awr.

A half-day meeting is defined as up to 4 hours.

9.7 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel un dros 4 awr.

A full day meeting is defined as over 4 hours.

9.8 Mae'r ffi diwrnod a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

The daily and half day fee for the Chairpersons of the Standards Committee and Audit Committee, as determined by the Independent Remuneration Panel for Wales, is set out in **Schedule 1**.

9.9 Mae'r ffi diwrnod a'r ffi hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y'u pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn cael eu nodi yn **Atodlen 1**.

The daily and half day fee for other statutory Co-optees with voting rights, as determined by the Independent Remuneration Panel for Wales, is set out in **Schedule 1**.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth / Travel and Subsistence Allowances

### 10.1 Egwyddorion Cyffredinol / General Principles

10.2 Caiff Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y'u nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu pa mor gost-effeithiol ydyw trefniadau teithio, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r amser teithio. Gall hawliad Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-effeithiol gael ei leihau gan y swm priodol.

Members and Co-opted Members are entitled to claim travelling expenses when travelling on the Authority's business for 'approved duties' as set out in **Schedule 2.** Where Members travel on the Authority's business, they are expected to travel by the most cost effective means. In assessing cost effectiveness regard will be given to journey time. A Member who does not travel by the most cost effective means may have their claim abated by an appropriate amount.

10.3 Lle y bo’n bosibl dylai Aelodau rannu trafnidiaeth.

Where possible Members should share transport.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael at y pwynt lle mae’r ddyletswydd yn cael ei chyflawni, ac yn yr un modd o'r man lle mae’r ddyletswydd yn cael ei chyflawni i'r man dychwelyd.

The distance claimed for mileage should be the shortest reasonable journey by road from the point of departure to the point at which the duty is performed, and similarly from the duty point to the place of return.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

The rates of Members’ Travel and Subsistence Allowances are set out in **Schedule 3** and are subject to annual review by the Independent Remuneration Panel for Wales.

10.6 Pan fydd Aelod yn cael ei atal / hatal yn llwyr neu’n rhannol o'i gyfrifoldebau / chyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy’n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal / hatal cael eu dal yn ôl gan yr Awdurdod.

Where a Member is suspended or partially suspended from their responsibilities or duties as a Member of the Authority in accordance with Part III of the Local Government Act 2000 (Conduct of Members), or regulations made under the Act, any travel and subsistence allowances payable to them in respect of that period for which they are suspended or partially suspended must be withheld by the Authority.

## 11. Teithio mewn Cerbyd Personol / Travel by Private Vehicle

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai’r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal â thâl ychwanegol am unrhyw deithwyr eraill.

The Independent Remuneration Panel for Wales has determined that the maximum travel rates payable should be the rates set out by Her Majesty’s Revenue & Customs for the use of private cars, motor cycles and pedal cycles plus any passenger supplement.

11.2 Mae'r cyfraddau y filltir ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

The mileage rates for private vehicles as determined by the Independent Remuneration Panel for Wales are set out in **Schedule 3.**

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei gerbyd / cherbyd preifat at ddibenion dyletswyddau cymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

Where a Member makes use of their private vehicle for approved duty purposes, the vehicle must be insured for business use. Proof of appropriate insurance must be provided to the Authority on request.

## 12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus / Travel by Public Transport

### 12.1 Taith Trên / Bws / Rail / Coach Travel

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i rhoi fel arall, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.

Unless otherwise authorised rail tickets will be second-class.

Bydd Gwasanaethau Cefnogol yn prynu tocynnau bws a rheilffyrdd angenrheidiol i Aelodau cyn y teithiau. Os bydd angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, sy'n annhebygol o ddigwydd, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl cyflwyno'r tocyn a ddefnyddiwyd a / neu dderbynneb.

The Support Services will purchase requisite rail and coach tickets for Members in advance of journeys. In the unlikely event that a Member needs to purchase a ticket directly, payment will be reimbursed upon production of the used ticket and/or a receipt.

### 12.2 Costau Tacsi / Taxi Fares

Bydd costau tacsi ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu os oes gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig.

Taxi fares will only be reimbursed where their use has been authorised for cases of urgency, where no public transport is reasonably available, or a Member has a particular personal need. Re-imbursement will be upon receipt only.

### 12.3 Costau Teithio Awyr (dewisol) / Air Fare (optional)

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma'r dull mwyaf cost effeithiol o deithio. Mae'n ofynnol cael caniatâd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd sydd ei angen a bydd tocynnau yn cael eu prynu gan Gwasanaethau Cefnogol

Travel by air is permissible if it is the most cost effective means of transport. Authorisation of the Head of Democratic Services is required and Support Services will purchase tickets.

### 12.4 Teithio Dramor / Travel Abroad

Bydd teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod yn cael ei ganiatáu gydag awdurdodiad gan Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn unig. Bydd Gwasanaethau Cefnogol yn trefnu teithio a llety.

Travel abroad on the Authority's business will only be permitted where authorised by Head of Democratic Services. Support Services will arrange travel and accommodation.

### 12.5 Costau Teithio Eraill / Other Travel Expenses

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig.

Members are entitled to reimbursement of toll fees, parking fees, overnight garaging and other necessary travel associated expenses. Re-imbursement will be upon receipt only.

**13. Llety Dros Nos / Overnight Accomodation**

13.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad ar bellter o'r fath y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

Overnight stays will only be permitted where the Authority's business extends to two days or more, or the venue is at such a distance that early morning or late night travel would be unreasonable. All overnight stays must receive prior authorisation from the Head of Democratic Services

13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan Gwasanaethau Cefnogol. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei rhagdalu neu ei anfonebu.

Support Services will book overnight accommodation. Wherever possible the overnight accommodation will be pre-paid or invoiced.

13.3 Bydd llety dros nos a archebwyd yn uniongyrchol gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-daliad yn cael ei roi ar sail cyflwyno derbynneb yn unig a bydd ar lefel yr ystyrir ei bod yn rhesymol ac nad yw'n rhagori ar y cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

Direct booking of overnight accommodation by a Member will only be permitted in the event of an emergency. Reimbursement will only be made upon the production of a receipt and will be at a level deemed reasonable and not in excess of the rates set out in **Schedule 3**.

**14 Lwfans Cynhaliaeth / Subsistence Costs**

14.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd sy'n berthnasol, ar yr amod bod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynneb / derbynebau)

The day subsistence rate to meet the costs of meals and refreshments in connection with approved duties (including breakfast when not provided as part of overnight accommodation) is set out in **Schedule 3**. The maximum daily rate covers a 24-hour period and can be claimed for any meal that is relevant, providing such a claim is supported by receipt(s)

14. 2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Bwrdeistref Sirol.

No provision is made for subsistence claims within the County Borough

**15. Ceisiadau a Thaliadau / Claims and Payments**

15.1 Dylid cyflwyno cais am dreuliau teithio, cynhaliaeth a gofal erbyn y 5ed o bob mis er mwyn sicrhau taliad prydlon y mae hawl i lwfans yn berthnasol iddo. Anogir cyflwyno cais yn ddyddiol drwy fewngofnodi i'r System Hunan Wasanaeth. Rhaid cyflwyno derbynebau perthnasol gyda'r hawliad.

A claim must be submitted for travelling, subsistence and care allowances by the 5th day of every month to ensure prompt payment in which entitlement to allowances arises. Members are encouraged to submit a daily application by logging in to the Self-Service System. Claims must be accompanied by relevant receipts.

15.2 Bydd lwfansau yn cael eu talu gan y trwy gredyd banc uniongyrchol

Allowances will be paid by direct bank credit.

**16. Pensiynau / Pensions**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

The Authority shall enable its Members who are eligible to join the Local Government Pension Scheme.

**17. Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod / Supporting the work of Authority Members**

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael digon o gymorth i ymgymryd â'u dyletswyddau a bod y cymorth a ddarperir yn ystyried anghenion penodol Aelodau unigryw. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y cymorth a ddarperir i Aelodau a dylai gyflwyno cynigion ar gyfer cymorth rhesymol i'r cyngor llawn.

The Independent Remuneration Panel for Wales expects Members to be provided with adequate support to carry out their duties and that the support provided should take account of the specific needs of individual Members. The Authority's Democratic Services Committee is required to review the level of support provided to Members and should take proposals for reasonable support to the full council.

17.2 Dylid rhoi cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i Aelodau etholedig ac Aelodau Cyfetholedig i roi iddynt fynediad electronig at wybodaeth briodol.

All elected Members & Co-opted Members should be provided with adequate telephone, email and internet facilities to give electronic access to appropriate information.

17.3 Dylid rhoi cymorth o'r fath heb unrhyw gost i unrhyw Aelod. Ni ddylid didynnu o dâl Aelodau fel cyfraniad at gost cymorth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn i Aelodau weithredu'n effeithiol a neu'n effeithlon.

Such support should be without cost to any Member. Deductions must not be made from Members' salaries as a contribution towards the cost of support, which the Authority has decided, is necessary for the effectiveness and or efficiency of Members.

**18. Cydymffurfiaeth / Compliance**

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

In accordance with the Regulations, the Authority must comply with the requirements of Independent Remuneration Panel for Wales in respect of the monitoring and publication of payments made to Members and Co-opted Members as set out in **Schedule 4.**

**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig bod hawliadau am dreuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol / Members & Co-opted Members are reminded that expense claims are subject to both internal and external audit.**

## ATODLEN 1 / SCHEDULE 1

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL / SCHEDULE OF REMUNERATION

## 2019/2020

| | AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL<br><br>MEMBERS ENTITLED TO BASIC SALARY | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL<br><br>ANNUAL AMOUNT OF BASIC SALARY |
|---|---|---|
| 1 | Y Cynghorydd / Councillor Menna Baines | £14,218 |
| 2 | Y Cynghorydd / Councillor Freya Bentham | £14,218 |
| 3 | Y Cynghorydd / Councillor Dylan Bullard | £14,218 |
| 4 | Y Cynghorydd / Councillor Steve Collings | £14,218 |
| 5 | Y Cynghorydd / Councillor Stephen Churchman | £14,218 |
| 6 | Y Cynghorydd / Councillor Annwen Daniels | £14,218 |
| 7 | Y Cynghorydd / Councillor R Glyn Daniels | £14,218 |
| 8 | Y Cynghorydd / Councillor Anwen Jane Davies | £14,218 |
| 9 | Y Cynghorydd / Councillor Alan Jones Evans | £14,218 |
| 10 | Y Cynghorydd / Councillor Aled Evans | £14,218 |
| 11 | Y Cynghorydd / Councillor Dylan Fernley | £14,218 |
| 12 | Y Cynghorydd / Councillor Peter A Garlick | £14,218 |
| 13 | Y Cynghorydd / Councillor Selwyn Griffiths | £14,218 |
| 14 | Y Cynghorydd / Councillor Alwyn Gruffydd | £14,218 |
| 1 | Y Cynghorydd / Councillor Annwen Hughes | £14,218 |

| | | |
|---|---|---|
| 16 | Y Cynghorydd / Councillor John Brynmor Hughes | £14,218 |
| 17 | Y Cynghorydd / Councillor Louise Hughes | £14,218 |
| 18 | Y Cynghorydd / Councillor R Medwyn Hughes | £14,218 |
| 19 | Y Cynghorydd / Councillor Judith Humphreys | £14,218 |
| 20 | Y Cynghorydd / Councillor Peredur Jenkins | £14,218 |
| 21 | Y Cynghorydd / Councillor Aeron M Jones | £14,218 |
| 22 | Y Cynghorydd / Councillor Aled Wyn Jones | £14,218 |
| 23 | Y Cynghorydd / Councillor Ann Lloyd Jones | £14,218 |
| 24 | Y Cynghorydd / Councillor Berwyn Parry Jones | £14,218 |
| 25 | Y Cynghorydd / Councillor Charles W Jones | £14,218 |
| 26 | Y Cynghorydd / Councillor Elin Walker Jones | £14,218 |
| 27 | Y Cynghorydd / Councillor Elwyn Jones | £14,218 |
| 28 | Y Cynghorydd / Councillor Eric Merfyn Jones | £14,218 |
| 29 | Y Cynghorydd / Councillor Gareth Tudur Morris Jones | £14,218 |
| 30 | Y Cynghorydd / Councillor Huw Wyn Jones | £14,218 |
| 31 | Y Cynghorydd / Councillor Keith Jones | £14,218 |
| 32 | Y Cynghorydd / Councillor Kevin Morris Jones | £14,218 |
| 33 | Y Cynghorydd / Councillor Linda A W Jones | £14,218 |
| 34 | Y Cynghorydd / Councillor Sion Wyn Jones | £14,218 |
| 35 | Y Cynghorydd / Councillor Eryl Jones-Williams | £14,218 |
| 36 | Y Cynhgorydd / Councillor Cai Larson | £14,218 |
| 37 | Y Cynghorydd / Councillor Beth Lawton | £14,218 |
| 38 | Y Cynghorydd / Councillor Dilwyn Lloyd | £14,218 |

| | | |
|---|---|---|
| 39 | Y Cynghorydd / Councillor Linda Morgan | £14,218 |
| 40 | Y Cynhgorydd / Councillor Dafydd Owen | £14,218 |
| 41 | Y Cynghorydd / Councillor Dewi Owen | £14,218 |
| 42 | Y Cynghorydd / Councillor A Roy Owen | £14,218 |
| 43 | Y Cynghorydd/ Councillor Jason W Parry | £14,218 |
| 44 | Y Cynghorydd / Councillor Nigel Pickavance | £14,218 |
| 45 | Y Cynghorydd / Councillor Rheinallt Puw | £14,218 |
| 46 | Y Cynghorydd/ Councillor Peter Read | £14,218 |
| 47 | Y Cynghorydd / Councillor Gareth A Roberts | £14,218 |
| 48 | Y Cynghorydd / Councillor W Gareth Roberts | £14,218 |
| 49 | Y Cynghorydd / Councillor Mair Rowlands | £14,218 |
| 50 | Y Cynghorydd / Councillor Mike Stevens | £14,218 |
| 51 | Y Cynghorydd / Councillor Hefin Underwood | £14,218 |
| 52 | Y Cynghorydd / Councillor Eirwyn Williams | £14,218 |
| 53 | Y Cynghorydd / Councillor Gareth Williams | £14,218 |
| 54 | Y Cynghorydd / Councillor Gruffydd Williams | £14,218 |
| 55 | Y Cynghorydd / Councillor Owain Williams | £14,218 |

| | UWCH GYFLOGAU<br>(yn cynnwys cyflog sylfaenol)<br><br>SENIOR SALARIES ENTITLEMENTS<br>(includes basic salary) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG<br><br>ANNUAL AMOUNT OF SENIOR SALARY |
|---|---|---|---|
| | **RÔL / ROLE** | **AELOD / MEMBER** | |
| 1. | Arweinydd<br>Leader | Cynghorydd / Councillor<br>Dyfrig Siencyn | £49,450 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd / Deputy Leader<br>Aelod Cabinet – Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Cabinet Member – Adults, Health and Wellbeing | Cynghorydd / Councillor<br>Dafydd Meurig | £34,950 |
| 3. | Aelod Cabinet – Addysg<br>Cabinet Member – Education | Cynghorydd / Councillor<br>Cemlyn Williams | £30,450 |
| 4. | Aelod Cabinet – Amgylchedd<br>Cabinet Member – Environment | Cynghorydd / Councillor<br>Gareth Griffith | £30,450 |
| 5. | Aelod Cabinet - Priffyrdd a Bwrdeistrefol<br>Cabinet Member – Highways and Municipal | Cynghorydd / Councillor<br>Catrin Wager | £30,450 |
| 6. | Aelod Cabinet – Tai ac Eiddo<br>Cabinet Member – Housing and Property | Cynghorydd / Councillor Craig ab Iago | £30,450 |
| 7. | Aelod Cabinet – Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Cabinet Member – Coorporate Service | Cynghorydd / Councillor<br>Nia Jeffreys | £30,450 |
| 8. | Aelod Cabinet – Cyllid Gwybodaeth<br>Cabinet Member – Finance | Cynghorydd / Councillor<br>Ioan Thomas | £30,450 |
| 9. | Aelod Cabinet – Economi a Chymuned<br>Cabinet Member – Economy and Community | Cynghorydd / Councillor<br>Gareth Thomas | £30,450 |
| 10. | Aelod Cabinet – Plant a Phobl Ifanc<br>Cabinet Member - Children and Young People | Cynghorydd / Councillor<br>Dilwyn Morgan | £30,450 |
| | | | |
| 11. | Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau<br>Chair of Communities Scrutiny Committee | Cynghorydd / Councillor<br>Elfed Roberts | £22,918 |
| 12. | Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal<br>Chair of Care Scrutiny Committee | Cynghorydd / Councillor<br>Dewi Roberts | £22,918 |
| 13. | Cadeirydd Pwyllgor Craffu Economi ac Addysg<br>Chair of Economy and Education Scrutiny Committee | Cynghorydd / Councillor<br>Paul Rowlinson | £22,918 |
| 14. | Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio<br>Chair of Planning Committee | Cynghorydd / Councillor<br>Elwyn Edwards | £22,918 |
| 15. | Cadeirydd Pwyllgorau Trwyddedu<br>(Canolog a Cyffredinol)<br>Chair of Licencing Committee | Cynghorydd / Councillor<br>Elfed Williams | £22,918 |

| | UWCH GYFLOGAU<br>(yn cynnwys cyflog sylfaenol)<br><br>SENIOR SALARIES ENTITLEMENTS<br>(includes basic salary) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG<br><br>ANNUAL AMOUNT OF SENIOR SALARY |
|---|---|---|---|
| | **RÔL / ROLE** | **AELOD / MEMBER** | |
| | (Central and General) | | |
| 16. | Cadeirydd Pwyllgor Pensiynau<br>Chair of Pensions Committee | Cynghorydd / Councillor John Pughe Roberts | £22,918 |
| 17. | Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br>Chair of Audit and Governance Committee | Cynghorydd / Councillor John Brynmor Hughes | £22,918 |
| 18. | Arweinydd Grŵp yr wrthblaid fwyaf<br>Leader of the the largest Opposition Group | Cynghorydd / Councillor Angela Russell | £22,918 |

Gall uchafswm o **18** o uwch gyflogau yn cael ei dalu yn **Cyngor Gwynedd** ac nid yw hyn wedi cael ei dorri.
A maximum of **18** senior salaries for **Cyngor Gwynedd** may be paid and this has not been exceeded.

| HAWLIAU CYFLOGAU DINESIG<br>ENTITLEMENT TO CIVIC SALARIES | | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG<br><br>ANNUAL AMOUNT OF CIVIC SALARY |
|---|---|---|
| **RÔL / ROLE** | **AELOD / MEMBER** | |
| Arweinydd Dinesig (Cadeirydd)<br>Civic Head (Chair) | Cynghorydd / Councillor Edgar Wyn Owen | £22,918 |
| Dirprwy Arweinydd Dinesig (Is-gadeirydd)<br>Deputy Civic Head (Vice Chair) | Cynghorydd / Councillor Simon Glyn | £17,918 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL<br>ENTITLEMENT AS STATUTORY CO-OPTEES | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG<br><br>AMOUNT OF CO-OPTEES ALLOWANCES |
|---|---|---|
| **RÔL / ROLE** | **AELOD / MEMBER** | |
| Cadeirydd Pwyllgor Safonau<br>Chair of Standards Committee | Dr Einir Young | £256 Ffi Dyddiol / Daily Fee<br>£128 Ffi ½ Diwrnod |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL<br>ENTITLEMENT AS STATUTORY CO-OPTEES | | SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG<br><br>AMOUNT OF CO-OPTEES ALLOWANCES |
|---|---|---|
| **RÔL / ROLE** | **AELOD / MEMBER** | |
| | | / Day Fee |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Craffu Economi ac Addysg a Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu<br><br>Statutory Co-optees - Standards Committee, Economy and Education Scrutiny Committee and Audit and Governance Committee, | Safonau / Standards<br><br>Ms Margaret E Jones<br>Mr David Wareing<br>Mr Aled Jones<br>Mr Richard Parry Hughes<br>Mr Hywel Eifion Jones<br><br>Craffu / Scrutiny<br><br>Anest Gray Frazer<br>Dylan Davies<br>Karen Vaughan Jones<br>2 sedd wag / vacant seat<br><br>Archwilio /Standards<br><br>Ms Sharon Warnes | £198 Ffi Dyddiol / Daily Fee<br>£99 Ffi ½ Diwrnod / Day Fee |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau mewn Cynghorau Tref a Chymuned<br><br>Statutory Co-optees - ordinary members of Standards Committee who also chair Standards Committees for Community Councils | Dim yn berthnasol<br>Not applicable | £226 Ffi Dyddiol / Daily Fee<br>£113 Ffi ½ Diwrnod / Day Fee |

| **AELODAU GYMWYS I DDERBYN LWFANS GOFAL<br>MEMBERS ELIGIBLE TO RECEIVE CARE ALLOWANCE** | |
|---|---|
| Pob Aelod<br>All members | Hyd at uchafswm o £403 y mis<br>(i'w adolygu)<br>Up to a maximum of £403 per month<br>(to be reviewed) |

## ATODLEN 2 / SCHEDULE 2

**Dyletswyddau cymeradwy**:

- bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath corff;
- bod yn bresennol mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohoni;
- bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod arall y mae ei gynnal wedi cael ei awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu ragor o Awdurdodau eraill;
- dyletswydd a ymgymerir at ddiben cyflawni swyddogaethau'r Cabinet, neu mewn cysylltiad â hynny;
- dyletswydd a ymgymerir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
- dyletswydd a ymgymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n grymuso'r Awdurdod, neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo, archwilio neu awdurdodi archwilio eiddo;
- bod yn bresennol mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet;
- y dyletswyddau a ganlyn sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor:

**Approved duties**: -

- attendance at a meeting of the Authority or of any committee of the Authority or of anybody to which the Authority makes appointments or nominations or of any committee of such a body;
- attendance at a meeting of any association of authorities of which the Authority is a member;
- attendance at any other meeting the holding of which is authorised by the Authority or by a committee of the Authority or by a joint committee of the Authority and one or more other Authorities;
- a duty undertaken for the purpose of or in connection with the discharge of the functions of Cabinet;
- a duty undertaken in pursuance of a standing order which requires a Member or Members to be present when tender documents are opened;
- a duty undertaken in connection with the discharge of any function of the Authority which empowers or requires the Authority to inspect or authorise the inspection of premises;
- attendance at any training or developmental event approved by the Authority or its Cabinet;
- the following duties which have been approved by Council:

**ATODLEN 3 / SCHEDULE 3**

**Costau Milltiroedd**

| | |
|---|---|
| Cerbydau modur preifat o bob maint<br>Hyd at 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car<br>Dros 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car<br>Am bob teithiwr sy'n cael ei gludo ar fusnes yr awdurdod | <br>45 ceiniog y filltir<br>25 ceiniog y filltir<br>5 ceiniog y filltir |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau pedal | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Hyd at uchafswm o £28 yw'r gyfradd gynhaliaeth ddyddiol ac mae'n cwmpasu cyfnod o 24 awr. Gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd, os yn berthnasol, ar yr amod bod derbynebau i gefnogi'r fath hawliad.

Ni chaniateir ad-daliad ar gyfer diodydd alcoholig.

**Llety dros nos**

£200 yw uchafswm y lwfansau ar gyfer Llundain, a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau wrth ymgymryd â dyletswydd gymeradwy.

**Mileage Rates**

| | |
|---|---|
| All sizes of private motor vehicle<br>Up to 10,000 miles in a year by car<br>Over 10,000 miles in a year by car<br>Per passenger carried on authority business | <br>45 pence per mile<br>25 pence per mile<br>5 pence per mile |
| Private Motor Cycles<br>Pedal Cycles | 24 pence per mile<br>20 pence per mile |

**Subsistence Allowance**

The day subsistence rate is up to a maximum of £28, covers a 24-hour period, and can be claimed for any meal if relevant provided receipts support such a claim.

Re-imbursement of alcoholic drinks will not be permitted.

**Overnight Stay**

The maximum allowances for an overnight stay are £200 for London and £95 for elsewhere. A maximum of £30 is available for an overnight stay with friends or relatives whilst on approved duty.

## ATODLEN 4 / SCHEDULE 4

**Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Er budd tryloywder, bydd hyn yn cynnwys taliadau cydnabyddiaeth ar gyfer pob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a ddelir gan Aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor ddatganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwyliedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau / Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelodau / Aelodau Cyfetholedig yn cyflwyno hawliad am ad-daliad amdanynt.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan Aelodau.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno i dalu am eilydd ar gyfer cyfnod o absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.

**Compliance**

- The Authority will arrange for the publication on the council's website the total sum paid by it to each Member and C-opted Member in respect of salary, allowances, fees and reimbursements not later than 30 September following the close of the year to which it relates. In the interests of transparency, this will include remuneration from all public service appointments held by elected Members.

- The Authority will publish on the council's website a statement of the basic responsibility of a councillor and role descriptors for senior salary office holders, which clearly identify the duties expected.

- The Authority will publish on the council's website the annual schedule of Member Remuneration no later than 31 July of the year to which the schedule refers.

- The authority will send a copy of the schedule to the Independent Remuneration Panel for Wales no later than 31 July of the year to which the schedule refers.

- The Authority will maintain records of Member/Co-opted Members attendance at meetings of council, cabinet and committees and other approved duties for which a Member/Co-opted Member submits a claim for reimbursement.

- The Authority will arrange for the publication on the council's website of annual reports prepared by Members.

- When the Authority agrees a paid substitution for family absence, it will notify the Independent Remuneration Panel for Wales within 14 days of the date of the decision of the details including the particular post and the duration of the substitution.